



Cymdeithas Brodwaith Cymru

CYLCHLYTHYR GAEAF 2017 - 2018

Croeso i rifyn y Gaeaf o'r *Aur Winiadau* a dyma lun i fynd â ni yn ôl i Eisteddfod Iwyddiannus Môn yn yr haf.



Dyma esiamplau o'r math o bethau y bydd posib eu gwneud yn y Cwrs Preswyl **Chwarae â Phwythau** dan ofal Esyllt ein Cadeirydd ym Mhlas Tanybwlich ar 3-4 Mawrth.



Gair o'r Gadair

Gobeithio i chi i gyd gael Nadolig Llawen a dymunaf Flwyddyn Newydd Dda i chi i gyd a dyma ni yn awr yn edrych ymlaen yn eiddgar at flwyddyn arall o weithgareddau ym myd tecstilau yn ein canghennau. Mae'n gyfle gwych i gymdeithasu gydag eneidiau "hoff gytûn" onid yw?

Fe soniwyd eisoes y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 2018 ar newydd wedd lle bydd gweithgareddau ar draws y ddinas ond bydd y canolbwynt yn y Bae. Ni fydd stondinau arferol yno yn ôl beth rydyn ni'n ddeall hyd yn hyn ac yn wir yn ein Cyfarfod Blyneddol yn Sir Fôn llynedd penderfynwyd fod cynnal standin am wythnos wedi mynd yn ormod o straen i griw bach o wirfoddolwyr ac na fyddem yn gwneud hynny o hyn ymlaen. Bydd rhaid cadarnhau hyn yn y Cyfarfod Blyneddol eleni.

Er hynny does neb am weld y gymdeithas yma yn dod i ben ac mae felly angen trafodaeth ymysg yr aelodau i weld y ffordd ymlaen. I'r perwyl yma byddwn yn cynnal cyfarfod yn fuan i ddechrau'r drafodaeth. Ble, sut a phryd allwn ni gael arddangosfa i hyrwyddo'r Gymdeithas a denu aelodau newydd? Ai arddangosfa am un diwrnod neu am benwythnos? Oes angen cael rhyw weithdai bychain i gyd-fynd â'r arddangosfa? Ble sy'n addas? Ydyn ni am gynnal gweithgaredd i godi arian i'r Gymdeithas neu i elusen o'n dewis? Edrychaf ymlaen at gael trafodaeth fywiog wedi i chi gael syniadau a sgysiau gyda'r aelodau, a hynny cyn bo hir. Dowch â'ch syniadau i'r cyfarfod.

Mae'r Cynulliad yn darparu mwy o ystafelloedd Cymdeithasol eleni felly mae'n siŵr taw yno y byddwn yn cynnal ein cyfarfod blyneddol ar ddydd Mercher yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Byddwn yn archebu ystafell unwaith bydd yr Eisteddfod yn rhyddhau'r wybodaeth. Gobeithio y gallwn gael lle tua 2.00 yp. er mwyn i bawb sydd am ddod allu mynychu.

Ac yn olaf hoffwn unwaith eto ddiolch i'm cyd-swyddogion am eu gwaith ac am bob cyd-weithrediad gydol y flwyddyn

Esyllt

Cwrs penwythnos Plas Tanybwllch

3 – 4 Mawrth 2018

Yn y lle cyntaf fe fydd cyfle i gyfuno pwythau i greu llyfr cyfair pwythau efallai yna defnyddio'r pwythau i greu gwaith fel clustog. Defnyddir pob math o ddefnyddiau - gallant fod yn gotwm/melfed/brethyn/sidan. Ar ôl rhoi rhain ar gefndir priodol yna pwytho a chreu "crazy quilting" a defnyddio amrywiaeth o bwythau i addurno.

O ran defnyddiau ar gyfer y cwrs mae'n dibynnu beth fydd person am ei wneud. Os taw llyfr cyfair pwythau yna dim ond digon o amrywiaeth o edafedd/gwlân i'w ddefnyddio. Fe ddof i â darnau o ffelt i bawb weithio arnynt. Byddai llyfr sy'n dangos y gwahanol bwythau yn help hefyd. Os am ddechrau gwneud clustog neu ddarn mwy o waith dod â sgraps o ddefnyddiau sy'n cydweddu; hefyd sgwâr o ddefnydd yn gefndir.

Edau: fel Perle gwahanol drwch, coton a broder, edau sidan, edau amryliw, edafedd gwlân, ac wrth gwrs, nodwyddau ar gyfer y gwahanol drwch.

Gobeithio fod hyn yn ddigonol ond croeso i unrhyw un gysylltu os am fwy o wybodaeth. Y cynllun yw cael amser hamddenol yn creu addurniadau deniadol!

Os am fynychu'r cwrs, cysylltwch â Medwen, yr Ysgrifennydd, cyn gynted â phosibl gyda blaendal o £50.00.

Swyddogion y Gymdeithas

Sylfaenydd:	Joyce Jones	☎ 01766 522085	E-bost: joyce@stitch.co.uk
Llywydd Cenedlaethol:	Brenda Wyn Jones	☎ 01248 600020	
Cadeirydd:	Esyllt Jones	☎ 01792 898211	E-bost: jonesesyllt@yahoo.com
Is-gadeirydd:	Rowena Evans	☎ 01678 520698	E-bost: carysrowena@live.co.uk
Trysorydd:	Buddug Roberts	☎ 01766 522497	E-bost: rhiwcrickcieth@gmail.com
Is-drysorydd:			
Ysgrifennydd:	Medwen Charles	☎ 01678 520293	E-bost: maes.meini@btinternet.com
Is-ysgrifennydd:			
Ysg. Aelodaeth:	Gwenfyl Jones	☎ 01745 890417	E-bost: meinididdos13@gmail.com
Golygydd:	Margaret Griffith	☎ 01766 810513	E-bost: m.griffith901@btinternet.com

Fe welwch unwaith eto fod angen enwau ar gyfer Is-drysorydd ac Is-Ysgrifennydd. Os oes unrhyw un yn fodlon ymgymryd â'r swyddi, cysylltwch â'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd.

O Ardal i Ardal

ADRODDIAD MÔN AC ARFON

Agorwyd y tymor ym Medi gyda thaith i Weithdy Ela, Meistres Gwisgoeddd yr Orsedd yn Ysbyty Ifan, gyda phawb yn dotio at y gwaith brodio celfydd ar y gwisgoeddd, yn arbennig felly y gwaith a wnaed gan rai o aelodau'r Gymdeithas ar wisg yr Archdderwydd. I gloi'r diwrnod cafwyd swper yn y Waterloo, Betws y Coed.

Gan i ni gytuno i helpu Cefyn Burgess gyda murlun Llys Llywelyn, Sain Ffagan bu'n rhaid i ni addasu ychydig ar ein rhaglen - dechrau Hydref aethpwyd ati i ffeltio, gwau a chrosio pabis coch a gwyn. Bydd rhain yn cael eu harddangos yn Sioe Gwyrthlân Cymru yn Llanellwedd ddiwedd Ebrill. Yna, diwedd Hydref aeth llond bws ar daith i Lichfield gyda Theithiau Elfyn Thomas.

Neilltuwyd diwrnod ar gyfer Prosiect Cefyn yn Nhachwedd hefyd, ac ymunodd aelodau o'r Gogledd Ddwyrain gyda ni - dros ddeg ar hugain i gyd, gyda rhai yn brodio, ac eraill yn gwneud *corsage* ffelt. Cafodd rhai nad oedd yn aelodau o'r Gymdeithas flas ar y brodio, a bellach mae pob un ohonynt wedi ymaelodi, a hynny, wrth gwrs, yn dilyn cyfres o Weithdai Hybu Diddordeb a gynhaliwyd ym Mhenygroes.

Brodio Tri Dimensiwn o dan arweiniad Rhiannon Parry gafwyd yn Rhagfyr, ac yn ystod y bore daeth Rhun ap Iorwerth AC atom i dynnu raffl y cwilt a wnaed gan rai o'r aelodau, a'i gwblhau gan gyn-aelod o'r gangen, Megan Williams, Caerfyrddin, er budd Cronfa'r Ambiwylans Awyr. Roedd gweld gwaith yr aelodau yn codi hiraeth ar Rhun am waith pwytho arbennig ei fam, Gwyneth Morus Jones. Enillydd haeddiannol y cwilt oedd Anwen Humphreys, Garndolbenmaen. Llwyddwyd i godi £600 tuag at Gronfa'r Ambiwylans Awyr trwy'r ymdrech hon.

I gloi'r tymor mwynhawyd Cinio'r Hen Galan yng ngwesty'r Anchorage, Pontrhydybont, gyda'r consuriwr o Garmel, Richard Owen yn ein diddori wedi'r wledd, ac wedi i ni gael golwg ar waith a wnaed gan yr aelodau yn ystod y flwyddyn.

Prosiect Cefyn Burgess - Apêl am ragor o help. Byddwn yn parhau i weithio ar y murlun, gan gychwyn mewn lleoliad newydd – **Canolfan Age Cymru Gwynedd a Môn, Y Bontnewydd ar 13 Ionawr**, a thrachefn ar **27 Ionawr yn Neuadd Goffa Penygroes**. Cysylltwch gyda rhannonp18@btinternet.com am ragor o wybodaeth. Cysylltwch hefyd os am ymuno ar daith dwy noson y gangen i Sioe Gwyrthlân Cymru yn ystod penwythnos olaf Ebrill. Byddwn yn aros yng Ngwesty'r Exchange, Caerdydd. Croeso i unrhyw un aros yn y ddinas yn hytrach na theithio i'r Sioe.

ADRODDIAD MEIRIONNYDD

Fe ddechreuwyd ein tymor newydd yn mis Hydref ac roedd Mair, ein tiwtor fedrus wedi paratoi pecyn gyda dewis o dri chynllun inni ei wneud. Y dewis cyntaf oedd gwnïo câs nodwyddau ar ganfas; yr ail oedd creu coeden dderwen mewn gwaith stwmp a'r trydydd dewis oedd creu lamplen yn defnyddio darnau o gotwm ysgafn â stribedi o *organza*. Cafwyd diwrnod pleserus a braf oedd cwrdd â'n gilydd unwaith eto.

Ym mis Tachwedd cafwyd cwrs gydag amrywiaeth o dasgau i'w dewis, yn wir mae Mair yn ein difetha! Un dewis oedd gwnïo cwdyn lafant mewn gwaith du neu groesbwyth, roedd addurn wedi ei datio â thylluan allan o gortyn mewn dull clymwaith, ac i'r aelodau oedd yn meddwl am y Nadolig roedd addurn yn defnyddio ffelt. Bu pawb yn mwynhau'r pwytho ac yn edrych ymlaen at y cwrs nesaf yn mis Ionawr.

Mae tua ugain ohonom yn mynychu'r cyrsiau ac mae croeso i aelodau newydd a chyn aelodau ymuno â ni yng Nghanolfan Tegid y Bala o 10.30 yb. – 3.30 yp. Manylion pellach gan Mair Rees ar 01678521343 neu Rhiannon ar 07814807130.

ADRODDIAD Y GOGLEDD DDWYRAIN

Cafwyd tymor prysur hyd yn hyn dan lywyddiaeth Eleri Jones a'r cyrsiau yn amrywiol gyda dros ugain wedi mynychu pob cwrs.

Roedd Anwen Hughes yn methu cymryd y cwrs mis Medi a daeth Llinos Roberts a Mary Mars Lloyd i'r bwlch i redeg cwrs ar frodwaith rhydd ar y peiriant. Roedd amryw wedi bod yn gofyn am gwrs o'r fath – rhai erioed wedi gwneud gwaith fel hyn o'r blaen. Aeth pawb gartref gyda darn o waith i wneud darlun bychan.

Gwneud bobyl efo gleiniau roeddem ar yr ail gwrs, hyn dan ofal Gaynor Thomas o Hen Golwyn. Roedd angen canolbwyntio ar y gwaith manwl ond roedd pawb yn dotio ar yr hyn a gyflawnwyd.

Mis Tachwedd cawsom wneud addurn Nadolig dan gyfarwyddiad Barbara Evans ac Ann Jones. Mwynhawyd cinio ym Melin Brwcws ym mis Rhagfyr a chafodd pawb anrheg Nadolig o sach Santa Cudd.

ADRODDIAD Y CANOLBARTH

Yng nghylchlythyr yr haf soniais ein bod yn mynd am drip i Landeilo cyn dirwyn gweithgareddau'r tymor i ben. Roedd rhaid cychwyn ben bore i wneud cyfiawnder â'r rhaglen oedd o'n blaenau. Aros yn Aberaeron i gychwyn i gael coffi yng Ngwesty'r Plu cyn teithio lawr i Landeilo. Erbyn hynny roedd yn amser cinio, ac roeddem wedi trefnu i gael cinio yng Ngwesty'r Hydd Gwyn. Prif atyniad ein taith oedd ymweld ag arddangosfa gwiltiau yng Nghapel Ebeneser yn y dref ac roedd yn wledd arbennig. Rhan o Wyl Llandeilo oedd yr arddangosfa wedi'i threfnu gan Gwiltwyr a Chlytweithwyr Llandeilo. Maent yn rhan o Urdd Cwiltwyr Sir Gâr ac yn cwrdd yn Llandybie. Maent yn creu arddangosfa bob yn ail flwyddyn, felly roeddem yn gweld cynnyrch dwy flynedd. Roedd y capel yn orlawn o gwiltiau o bob llun a lliw ac yn wledd i'r llygad. Roedd yn arddangosfa wych iawn. Ond yna roedd un atyniad arall cyn bod ein diwrnod ar ben. Roedd un o'n haelodau wedi trefnu inni ymweld ag Eglwys San Teilo i gael gweld y brodwaith arbennig sydd ar yr allorau o fewn yr eglwys. Fe'n tywyswyd o amgylch yr eglwys gan Mrs Beryl Taylor. Diwrnod llawn a diddorol.

Ac yna fe ddaeth yr haf i ben a ninnau'n barod i ail-afael yn ein gweithgareddau. Rhiannon Parry oedd ein tiwtor ym mis Medi ac wrth gwrs cawsom ddiwrnod hwyliog a difyr yn ei chwmni. 'Blodyn oen bach' oedd y gweithgaredd a phawb yn cael arbrofi gyda gwahanol bwythau ac edafedd. Mae Rhiannon yn llawn brwdfrydedd ac anogaeth.

Ym mis Tachwedd fe gytunodd un o'n haelodau i fod yn diwtor, sef Elisabeth Wyn. Roedd wedi paratoi'n drylwyr ac aeth y dydd yn ei flaen yn hwylus dros ben. Gwneud defnydd newydd trwy osod darnau o ddefnyddiau at ei gilydd a gwnïo drostyn oedd y dasg. Roedd yr effaith yn hyfryd. Roedd pawb wedi paratoi a gorffen darn erbyn diwedd y pwn. Y gamp wedyn oedd creu clustog neu fag neu gas llyfr o'r defnydd.

Ychydig dros flwyddyn wedi inni fod yn dathlu penblwydd Megan Davies yn 90, fe ddaeth y newyddion trist ein bod wedi ei cholli. Roedd Megan yn un o sylfaenwyr ein grŵp ac wedi bod yn aelod o'r Gymdeithas ers y dechrau. Roedd hi bob amser yna gyda ni yn frwdfrydig ymhob gweithgaredd ac yn barod iawn i drefnu tripiâu ac ati inni. Hi oedd ein trysorydd tan yn ddiweddar iawn. Fe welwn ei cholli yn fawr.

Byddwn yn cwrdd nesaf ym mis Ionawr.

ADRODDIAD CAERDYDD

Mae Marian Evans o Gaerdydd wedi bod wrthi'n brysur yn codi arian at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd trwy greu cwilt arbennig. Talwyd am y defnydd ar ei gyfer gan Mari Lewis a chyflwynodd y Prifardd James Jones (Jim Parc Nest) gwpled ar ei gyfer.

Cwilt sydd wedi cael ei gwiltio fesul panel ydy o, sy'n cael ei roi at ei gilydd efo llaw a'r lliwiau yr un rhai â logo'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'r 4 panel yn y canol yn cynrychioli agweddau o'r Eisteddfod, sef Y Nod Cyfrin, 2 fwgwd Drama, Cwpled Jim Parc Nest yn gwahodd yr Wyl i Gaerdydd a'r Treble Cleff.

Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â lle y caiff ei arddangos, un ai yn Y Cynulliad, Canolfan Y Mileniwm neu Sain Ffagan.

Gweithgareddau

Mae croeso i bawb ymuno â'r holl weithgareddau – ond i chi gysylltu ymlaen llaw am fanylion ac i sicrhau bod lle!

MÔN AC ARFON

Cynhelir y cyrsiau i gyd am 10 y bore yn Nhan Lan, Bodorgan.
Manylion pellach gan Gladys Pritchard 01407 762090

18 Ionawr:	Prosiect Cefyn Burgess, Bontnewydd	7 Ebrill:	Gweithdy gyda Sue Williams
27 Ionawr:	Prosiect Cefyn Burgess, Penygroes	27-29 Ebrill:	Taith i'r Sioe Wlân yn Llanelwedd
3 Chwefror:	Gweithdy gyda Elen Jones yn gwneud 'corsage'	5 Mai:	Prosiect Cefyn Burgess
3 Mawrth:	Gweithdy gyda Alison Chapman yn gwneud 'Quip'	2 Mehefin:	Gweithdy gyda Megan Williams

MEIRIONNYDD

Cynhelir pob cyfarfod yng Nghanolfan Tegid, Y Bala o 10.30 yb. – 3.30 yp.
Os am fynychu cysylltwch â Mair Rees ar 01678 521343 neu Rhiannon Evans ar 07814807130

27 Ionawr: Natur ag Edau

21 Ebrill: Hardanger, darlun
mewn gwaith tynnu neu ffeltio.

Y GOGLEDD DDWYRAIN

Cynhelir pob gweithdy yng Nghanolfan Awelon, Rhuthun o 10.00 yb. – 3.00 yp.
Mae angen rhoi enw ymlaen llaw i'r ysgrifenyddion:
Llinos Roberts 01745 582204 neu Ann Jones 01492512155

17 Chwefror: 2 gornel
gyda Eirlys Savage ac Eleri Jones

21 Ebrill: Hardanger
gyda Joan Salisbury a Gwenfyl Jones

24 Mawrth: Anwen Hughes
Mwclis

Mai: Diwrnod i'w drefnu

Y CANOLBARTH

Cynhelir pob gweithgaredd yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre o 10.00 yb. – 4.00 yp.
Manylion pellach gan Eryl Evans 01970 820778.

20 Ionawr: Meleri
Diwrnod o wniö yn ei gofal

24 Chwefror: I'w drefnu
24 Mawrth: Cau pen y mwdwl

YR EISTEDDFODAU

Diolch i'r criw bychan fu'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r stondin yn Eisteddfod Môn a llongyfarchiadau i Alwen Jones o Langybi, Pwllheli ar ennill y raffl.

Mae Eysyllt eisoes wedi sôn na fydd yn bosib cael stondin yn Eisteddfod Caerdydd a phenderfynwyd yng Nghyfarfod Blynnyddol y llynedd na fyddwn yn cynnal stondin eto ar faes yr Eisteddfod. Y teimlad yn y cyfarfod oedd y dylid cynnal rhyw weithgaredd er hynny ac mae angen trafodaeth am hyn o fewn y cylchoedd. Mae peidio cael stondin hefyd yn golygu newid y cyfansoddiad a bydd hynny'n digwydd yn y Cyfarfod Blynnyddol nesa. Bydd manylion am y cyfarfod hwn yn y cylchlythyr nesaf.

Aelodaeth

Y ffordd fwyaf cyfleus o dalu eich tâl aelodaeth yw trwy archeb banc, (ffurflen ar gael gan yr Ysgrifennydd Aelodaeth) am fod yn rhaid anfon ffurflen bob blwyddyn at y rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Gofynnir i bob Cangen anfon enwau a thâl aelodaeth ei haelodau gyda'i gilydd i hwyluso'r gwaith gweinyddol. Gobeithio'ch bod i gyd yn cenhadu er mwyn denu rhagor o aelodau fel y gwnaeth Cangen Môn ac Arfon.

BWRSARI ar gyfer ein haelodau

Cofiwch ein bod yn cynnig arian i'n haelodau o bob oed i ddilyn cwrs hyfforddiant o 1 i 3 diwrnod mewn maes brodwaith o'u dewis. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r Ysgrifennydd.

DEFNYDDIAU BRODIO – rhatach!

Cytunodd y siopau canlynol i gynnig gostyngiad i aelodau'r Gymdeithas, dim ond ichi ddangos eich tocyn aelodaeth. Os gwyddoch chi am unrhyw siop fyddai'n fodlon bod ar y rhestr, yna byddai eich cysylltydd lleol yn falch iawn o glywed gennych. Diolch i'r rhai ohonoch sy'n gwneud yn siŵr fod y rhestr hon yn cael ei diweddarau'n gyson.

Canolfan Grefftau Tan Lan, Bodorgan, Ynys Môn.

Kit 'N Kaboodle, Adeiladau'r Banc, Breeze Hill, Benllech, Ynys Môn.

Kit 'N Kaboodle, Tŷ Menai, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll, Ynys Môn

Silken Strands, 20 Y Rhos, Bangor (dim disgownt, ond prisiau rhesymol iawn)

Siop D.E., Y Bala

Brethyn Blaenau, 33 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog

Golygydd y Cylchlythyr: Margaret Griffith, Dwyfach, Chwilog.
Pwllheli, Gwynedd LL53 6TF
Cyhoeddir gan Gymdeithas Brodwaith Cymru
Aragraffwyd gan Hywel Evans, 27 Trewen, Dinbych LL16 3HF

Dyma ddau lun o'r standin ym Môn - y raffl ar y chwith a chanol yr arddangosfa ar y dde.



Marian Evans gyda'r cwilt at Eisteddfod Caerdydd



Rhun ap Iorwerth yn cyflwyno'r cwilt i Anwen Humphreys



Gwaith cywrain y Gogledd Ddwyrain



Y brodwaith arbennig ar allor yn Eglwys Sant Teilo

